# Adroddiad Gwella Blynyddol

## Yn ymgorffori Adroddiad Asesu Corfforaethol 2014

# Dinas a Sir Abertawe

Cyhoeddwyd: Mehefin 2015
Cyfeirnod y ddogfen: 220A2015



Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn, sy'n ymgorffori'r Asesiad Corfforaethol, wedi cael ei baratoi ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Steve Barry a Samantha Spruce, ynghyd â staff PricewaterhouseCoopers dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

# Cynnwys


Adroddiad cryno a chynigion ar gyfer gwella 4

Adroddiad manwl

Gall y Cyngor ddangos gwelliant mewn amrywiaeth o wasanaethau allweddol ac mae wedi datblygu fframwaith clir ar gyfer rheoli heriau yn y dyfodol 7

Mae gan y Cyngor weledigaeth glir o ran yr hyn y mae am ei gyflawni 8

Ar y cyfan, mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu cadarn ac mae'n gwella mynediad at wybodaeth am ei weithgareddau craffu 10

Gall y Cyngor ddangos gwelliant mewn amrywiaeth o wasanaethau allweddol ac mae'n cydnabod yr angen i wella ei drefniadau monitro a rheoli perfformiad yn gyflymach 15

Mae gan y Cyngor hanes cryf o reoli ei gyllideb ac mae wedi sefydlu trefniadau cynhwysfawr ar gyfer rheoli'r heriau ariannol y mae'n eu hwynebu yn y dyfodol 23

Rhydd y Strategaeth Adnoddau Dynol fframwaith rheoli pobl ond nid yw'n cael ei ddefnyddio'n gyson ar lefel gwasanaeth 27

Mae trefniadau rheoli asedau yn gyson â'r gwaith o gyflawni strategaeth newid y Cyngor ond nid yw cynlluniau busnes gwasanaethau yn ymgorffori ymrwymiadau a gofynion asedau eiddo yn gyson 29

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 30

Atodiad 2 – Tystysgrifau cydymffurfiaeth 31

Atodiad 3 – Llythyr Archwilio Blynyddol 35

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Yn 2013-14, dechreuodd staff Swyddfa Archwilio Cymru gylch pedair blynedd o asesiadau corfforaethol o fewn awdurdodau gwella yng Nghymru. Golyga hyn, yn ogystal â rhaglen flynyddol o astudiaethau gwella ac archwiliadau o ddulliau awdurdodau o gynllunio gwelliant ac adrodd ar welliant, y bydd pob awdurdod yn cael asesiad corfforaethol manwl unwaith yn ystod cyfnod o bedair blynedd. Yn y blynyddoedd rhwng asesiadau, byddwn yn monitro datblygiadau drwy ddiweddariadau ar gynnydd.

2 Canolbwyntiodd ein gwaith maes ar gyfer yr asesiad corfforaethol ar y graddau y mae trefniadau yn helpu i wella perfformiad gwasanaethau a chanlyniadau i ddinasyddion. Ceisiodd yr asesiad corfforaethol ateb y cwestiwn canlynol: **'A all y Cyngor gyflawni ei flaenoriaethau a gwella canlyniadau i ddinasyddion?'**

3 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad canlynol: **gall y Cyngor ddangos gwelliant mewn amrywiaeth o wasanaethau allweddol ac mae wedi datblygu fframwaith clir ar gyfer rheoli heriau yn y dyfodol.** Daeth i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- a mae gan y Cyngor weledigaeth glir o ran yr hyn y mae am ei gyflawni;
- b mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu cadarn ar y cyfan ac mae'n gwella mynediad at wybodaeth am ei weithgareddau craffu;
- c gall ddangos gwelliant mewn amrywiaeth o wasanaethau allweddol ac mae'n cydnabod yr angen i wella ei drefniadau monitro a rheoli perfformiad yn gyflymach;
- ch mae ganddo hanes cryf o reoli ei gyllideb ac mae wedi sefydlu trefniadau cynhwysfawr ar gyfer rheoli'r heriau ariannol y mae'n eu hwynebu yn y dyfodol;
- d rhydd ei Strategaeth Adnoddau Dynol fframwaith rheoli pobl ond nid yw'n cael ei ddefnyddio'n gyson ar lefel gwasanaeth; ac
- dd mae ganddo drefniadau rheoli asedau sy'n gyson â'r gwaith o gyflawni strategaeth newid y Cyngor ond nid yw cynlluniau busnes gwasanaethau yn ymgorffori ymrwymiadau a gofynion asedau eiddo yn gyson.

## Cynigion ar gyfer Gwella

| Cynigion ar gyfer Gwella | |
|---|---|
| **C1** | Cyflwyno newidiadau arfaethedig i drefniadau adrodd y prif flaenoriaethau corfforaethol a nodi llai o ganlyniadau bwriadedig er mwyn cyflawni blaenoriaethau newydd y Cyngor. |
| **C2** | Sicrhau bod cofnodion penderfyniadau dirprwyedig a wneir gan swyddogion yn cael eu cadw'n gywir. |
| **C3** | Gwella trefniadau adrodd ar berfformiad yn gyflymach er mwyn darparu amrywiaeth cytbwys o wybodaeth hygyrch sy'n cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau. |
| **C4** | Sicrhau bod cynlluniau busnes gwasanaethau yn ymgorffori gofynion rheoli asedau a'r gweithlu yn gyson fel y disgwylir mewn canllawiau corfforaethol. |

## Cyflwyniad

4 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn darparu rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth gan arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n gwneud hynny, a'r cynnydd y mae Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor) wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn seiliedig ar hunanasesiad y Cyngor ei hun. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, daw'r adroddiad i gasgliad o ran p'un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

5 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

6 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- a gyflwyno cynigion ar gyfer gwella - gwnawn gynigion o'r fath yn yr adroddiad hwn a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- b Gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith. Ni welwn unrhyw reswm dros wneud argymhellion o'r fath;
- c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion. Ni welwn unrhyw reswm dros gynnal arolygiad o'r fath; ac
- ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd. Ni welwn unrhyw reswm dros wneud argymhelliad o'r fath.

7 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Adroddiad manwl

Gall y Cyngor ddangos gwelliant mewn amrywiaeth o wasanaethau allweddol ac mae wedi datblygu fframwaith clir ar gyfer rheoli heriau yn y dyfodol



## Mae gan y Cyngor weledigaeth glir o ran yr hyn y mae am ei gyflawni

8 Roedd yr aelodau Cabinet a'r uwch reolwyr y gwnaethom siarad â hwy yn glir o ran yr hyn roeddent am ei gyflawni a chyfeiriwyd at 'bum prif' flaenoriaeth y Cyngor fel y ffactorau a oedd yn ysgogi'r gwaith o gyflawni'r weledigaeth honno. Cafodd y blaenoriaethau canlynol eu mabwysiadu gan y Cabinet ym mis Ionawr 2015:

- a Diogelu pobl agored i niwed
- b Gwella cyrhaeddiad disgyblion
- c Creu dinas ac economi ffyniannus a dichonadwy
- ch Trechu Tlodi
- d Adeiladu cymunedau cynaliadwy

9 Dynododd ein harolwg o uwch reolwyr a grwpiau ffocws fod y rhan fwyaf yn ymwybodol o'r newid i bum blaenoriaeth allweddol.

10 Dros y blynyddoedd diwethaf, lluniwyd amrywiaeth o ddogfennau gwahanol, gyda phob un yn amlinellu amcanion penodol a phob un wedi dylanwadu ar weithgareddau gwasanaethau:

- a **Cynllun Un Abertawe** a gyhoeddwyd yn 2013. Y Cynllun Integredig Sengl sy'n amlinellu blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar ffurf chwe 'chanlyniad poblogaeth'. Caiff ei ddiweddaru bob blwyddyn ac, yn 2014, lluniwyd datganiad cyflawni yn nodi 21 o weithgareddau ar gyfer ystod eang o wasanaethau wedi'u darparu gan y Cyngor a'i bartneriaid.

- b Roedd **Gweithredu dros Abertawe Well**, sef Cynllun Gwella Corfforaethol blaenorol y Cyngor ar gyfer 2013-17, yn cynnwys naw amcan gwella. Ceir cysylltiadau clir rhwng y rhan fwyaf o'r amcanion hyn a'r rhai yn Un Abertawe a chaiff y rhan fwyaf o'r mesurau a ddefnyddiwyd i asesu perfformiad eu rhannu.

- c Deg Ymrwymiad Polisi'r weinyddiaeth Lafur a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2012. Caiff y rhan fwyaf eu hadlewyrchu yn y naw amcan gwella yn y Cynllun Corfforaethol ond, erbyn mis Gorffennaf 2014, roedd adroddiadau swyddogion yn disgrifio ac yn adrodd yn erbyn 106 o weithgareddau fel 'ymrwymiadau polisi'.

- ch Cafodd **Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol** (Abertawe Gynaliadwy) ei mabwysiadu'n strategaeth ym mis Hydref 2013 gyda'r rhaglen gyflawni yn cael ei mabwysiadu ym mis Gorffennaf 2014. Bydd ymateb y Cyngor i sicrhau y gall reoli dyfodol yn effeithiol pan fo'r adnoddau sydd ganddo i ddiwallu anghenion lleol gryn dipyn yn llai. Ategir y strategaeth hon gan fframwaith llywodraethu clir ac mae'n cynnwys pedwar llif gwaith sydd â 14 o elfennau cyflawni.

- d Mae'r Cyngor yn un o'r rhai cyntaf yng Nghymru i geisio ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ei brosesau gwneud penderfyniadau a gweithgareddau ac ef oedd un o'r cynghorau cyntaf yng Nghymru i adrodd ar y pwnc yn gyhoeddus. Mae gan y Polisi Datblygu Cynaliadwy ddeg nod a saith maes blaenoriaeth ac mae'r Cyngor wedi nodi pedair her allweddol y mae angen iddo eu datrys er mwyn llywio ei amcanion polisi. Gall y rhan fwyaf o'r rhain gael eu cysylltu â'r llifau gwaith o fewn rhaglen 'Abertawe Gynaliadwy'.

11 Gyda'i gilydd mae Abertawe Gynaliadwy a'r Cynllun Corfforaethol yn darparu gweledigaeth o'r hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni o ran ei weithrediadau mewnol ac i'w ddinasyddion a sut mae'n bwriadu mynd ati i reoli'r heriau y mae'n eu hwynebu nawr ac yn y dyfodol. Mae datgan y deg ymrwymiad polisi ac adrodd ar gynnydd yn gyhoeddus yn erbyn yr ymrwymiadau hyn yn arfer da - ond yn hytrach na chanolbwyntio ar ganlyniadau bwriadedig yr ymrwymiadau polisi hyn mae trefniadau adolygu yn canolbwyntio gormod ar olrhain gweithgareddau.

12 Y broblem sy'n wynebu'r Cyngor yw bod gweithgareddau ychwanegol, dros amser, wedi cael eu cynnwys mewn adroddiadau sydd, nid yn unig yn tynnu sylw oddi ar ei brif flaenoriaethau, ond hefyd wedi arwain at broses adrodd lafurus yn erbyn amrywiaeth o weithgareddau - yn hytrach na chyflawni'r canlyniadau. Fodd bynnag, rhydd hyn y cyfle i'r Cyngor ddod â threfniadau adrodd llafurus i ben a datblygu prosesau adrodd mwy cryno.

13 Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2015-17 ac wedi cynnwys y mesurau cynnydd y mae'n bwriadu eu defnyddio i bennu p'un a gaiff ei flaenoriaethau eu cyflawni ai peidio. Ar hyn o bryd, nid yw'r mesurau hyn yn cyflawni'r bwriadau a gynigiwyd yn y system 'cerdyn sgorio' a gyflwynir.

### Arddangosyn 1 – Arfer Cadarnhaol - Datblygu Cynaliadwy

Abertawe oedd un o'r awdurdodau lleol cyntaf yng Nghymru i adrodd ar berfformiad ym maes datblygu cynaliadwy yn gyhoeddus, gan ganolbwyntio i ddechrau ar y defnydd o ynni ac allyriadau carbon.

Cafodd Polisi Datblygu Cynaliadwy'r Cyngor ei fabwysiadu gyntaf yn 2006 a chafodd ei ddiwygio yn 2012. Amlinella'r weledigaeth ar gyfer Abertawe gynaliadwy, gan ddiffinio datblygu cynaliadwy fel a ganlyn: 'Datblygu sy'n diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.' Nod hyn yw sicrhau bod holl gamau gweithredu a pholisïau'r Cyngor yn gynaliadwy, drwy integreiddio nodau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, tra'n ceisio cyflawni amcanion y Strategaeth Gymunedol. Mae'r Polisi yn amlinellu deg nod a saith maes blaenoriaeth.

Caiff y Polisi ei ategu gan y Fframwaith Datblygu Cynaliadwy sy'n darparu gwybodaeth am ddatblygu cynaliadwy a'r hyn y mae'n ei olygu i'r Cyngor yng nghyd-destun ysgogwyr cenedlaethol a lleol. Amlinella gynllun gweithredu pum mlynedd er mwyn cyflawni gweledigaeth a nodau'r Polisi Datblygu Cynaliadwy.

Drwy ganolbwyntio'n benodol ar integreiddio'r egwyddorion o fewn prosesau gwneud penderfyniadau a gweithredu, mae'r Cyngor wedi llwyddo i nodi'r bylchau y mae angen iddo ymdrin â hwy er mwyn cyflawni ei bolisi. Mae'r gwaith o ymdrin â'r bylchau hyn wedi'i integreiddio o fewn fframwaith cynllunio'r Cyngor.

## Cynnig ar gyfer Gwella

| Cynnig ar gyfer Gwella | |
|---|---|
| **C1** | Cyflwyno newidiadau arfaethedig i drefniadau adrodd y prif flaenoriaethau corfforaethol a nodi llai o ganlyniadau bwriadedig er mwyn cyflawni blaenoriaethau newydd y Cyngor. |

## Ar y cyfan, mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu cadarn ac mae'n gwella mynediad at wybodaeth am ei weithgareddau craffu

14 Dylai llywodraethu da arwain at reoli da, perfformiad da, gwarchod arian cyhoeddus yn dda, cyswllt da â'r cyhoedd ac, yn y pen draw, ganlyniadau da (The Good Governance Standard for Public Services, OPM a CIPFA, 2005). Mae trefniadau llywodraethu da yn darparu fframwaith atebolrwydd i ddefnyddwyr, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach, ac o fewn y fframwaith hwnnw mae sefydliadau yn gwneud penderfyniadau ac yn cyflawni amcanion penodol.

### Caiff Aelodau Cabinet eu dwyn i gyfrif mewn sawl ffordd

15 Mae gan y Cyngor systemau clir ar waith i ddwyn Aelodau Cabinet i gyfrif, sy'n cynnwys cytuno ar amcanion portffolio pob aelod Cabinet gan Arweinydd y Cyngor a monitro'r broses o'u cyflawni. Mae'r amcanion portffolio hyn hefyd yn treiddio i rai uwch swyddogion ac yn cael eu hintegreiddio o fewn prosesau cynllunio gwasanaethau. Mae Aelodau Cabinet unigol hefyd yn mynychu Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar sail dreigl er mwyn cyflwyno eu hadroddiadau eu hunain ac ymateb i gwestiynau ac, ar gais, gallant ymuno â phaneli craffu.

#### Arddangosyn 2 – Arfer Cadarnhaol - Amser i Holi

| |
|---|
| Mae'r Cyngor yn rhoi cyfleoedd ffurfiol i'r cyhoedd a chynghorwyr ofyn cwestiynau yng nghyfarfodydd y Cabinet, ac i'r cyhoedd ofyn cwestiynau yng nghyfarfodydd y Cyngor. |

### Mae rolau a chyfrifoldebau o fewn prosesau gwneud penderfyniadau yn glir ond nid yw cofnodion penderfyniadau dirprwyedig a wneir gan swyddogion mor dryloyw â'r hyn a fwriadwyd

16 Amlinella cyfansoddiad y Cyngor rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a llywodraethu ac fe'i diweddarwyd yn ddiweddar. Er bod swyddogion ac aelodau yn fodlon ar y lefelau dirprwyo o fewn y cyfansoddiad, roedd nifer yn teimlo y gellid symleiddio'r broses gwneud penderfyniadau ymhellach drwy gynyddu nifer y penderfyniadau y gellid eu gwneud drwy bwerau dirprwyedig.

17 Mae'r Cyngor yn cyhoeddi blaenraglenni gwaith ar gyfer y Cyngor, y Cabinet a'r swyddogaeth Graffu ac mae'r swyddogaeth graffu yn defnyddio sawl dull o godi ymwybyddiaeth o'i gwaith drwy gyfryngau cymdeithasol a pharatoi'r Adroddiadau Craffu. Hefyd, lle bo modd, mae'r Cyngor yn ymrwymo i gyhoeddi agendâu/papurau ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor saith diwrnod ymlaen llaw sy'n well na'r gofyniad statudol. Yng nghyfarfodydd ffurfiol pwyllgorau, mae'r agenda hefyd yn cynnwys esboniad clir o'r rheswm y mae angen gwahardd y wasg a'r cyhoedd o ran o gyfarfod.

18 Nid oes gan y Cyngor gofnod corfforaethol ac nid yw'n cyhoeddi cofnodion o benderfyniadau gweithredol a ddirprwywyd i swyddogion. Ceir adran ar wefan y Cyngor sy'n dynodi ei fod yn cynnwys rhestr o benderfyniadau o'r fath a wnaed gan swyddogion. Fodd bynnag, nid yw wedi'i phoblogeiddio, ni cheir unrhyw ganlyniadau wrth chwilio am 'benderfyniadau a wnaed' a gallai arwain at ddod i'r casgliad na wnaed unrhyw benderfyniadau. Felly, nid oes gan y trefniant hwn y tryloywder bwriadedig a phetai'r Cyngor yn penderfynu cynyddu lefelau dirprwyo bydd y broses o gofnodi a chyhoeddi penderfyniadau yn fwy pwysig.

## Mae strwythur craffu'r Cyngor yn ei gwneud yn bosibl i gymryd camau hyblyg a phenodol ac mae mynediad at wybodaeth am weithgareddau craffu wedi gwella dros y misoedd diwethaf

19 Mae strwythur craffu'r Cyngor yn cynnwys Pwyllgor Rhaglen Graffu ffurfiol, paneli perfformiad a phaneli ymchwiliadau cyfyngedig o ran amser. Bwriedir i'r strwythur ei gwneud yn bosibl i ymateb yn fwy hyblyg i faterion drwy sefydlu paneli ymchwiliadau cyfyngedig o ran amser ac mae'n rhoi'r cyfle i aelodau fynd ati i graffu ar bynciau sy'n cyfateb i'w meysydd diddordeb.

20 Fodd bynnag, gan nad ystyrir bod y paneli perfformiad ac ymchwiliadau yn rhannau 'ffurfiol' o fusnes y Cyngor ar adeg cynnal yr asesiad hwn, nid oedd manylion eu cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor yn yr un ffordd â chyfarfodydd ffurfiol eraill. Roedd hyn yn golygu bod diffyg mynediad at wybodaeth am achosion a'r wybodaeth a roddwyd i aelodau paneli. O ganlyniad, nid oedd yn hawdd asesu'r ffordd yr ymdriniodd cynghorwyr â'r wybodaeth honno na'r canlyniadau a gyflawnwyd. Tra cafodd peth gwybodaeth am weithgareddau ei chofnodi yng nghofnodion Pwyllgor y Rhaglen Graffu wedyn, roedd yn anodd cael mynediad at wybodaeth benodol oni bai bod y dyddiad yr ystyriwyd eitem yn hysbys yn barod - roedd hyn yn cynnwys anhawster i nodi'r rhaglen o weithgareddau arfaethedig.

21 Yn y misoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi bod yn cymryd camau i wella mynediad at y wybodaeth am ei waith craffu. Cyhoeddir Adroddiadau Craffu sy'n egluro ymchwiliadau cyfredol ac mae Llyfrgell Adroddiadau Craffu yn rhoi gwell mynediad at yr adroddiadau a gaiff eu llunio gan baneli ymchwiliadau. Defnyddir cyfryngau cymdeithasol hefyd i godi ymwybyddiaeth o weithgareddau craffu.

22 Mae Pwyllgor y Rhaglen Graffu hefyd wedi cymeradwyo cynllun gweithredu a allai wella prosesau cyfathrebu ac ymgysylltu ym maes craffu. Hefyd, mae prosesau clir ar waith i adrodd ar ganlyniadau gwaith craffu ynghyd â monitro'r broses o weithredu argymhellion a gwneud gwaith dilynol arnynt, yn ogystal â chyfrifoldebau'r Cabinet wrth ymateb i argymhellion. Hefyd, mae Bwrdd y Rhaglen Graffu wedi cymeradwyo cynigion i wella effaith gwaith craffu gan gynnwys, er enghraifft, drwy sefydlu canlyniadau mesuradwy ar ddechrau ymchwiliadau.

23 Roedd Pwyllgorau Cynghori'r Cabinet yn cael eu cyflwyno ar adeg cynnal yr asesiad hwn. Mae'r cyfansoddiad yn cyfeirio at swyddogaethau Pwyllgorau Cynghori'r Cabinet fel a ganlyn:

a cynghori'r Aelodau Cabinet perthnasol fel y bo'n briodol ar faterion sy'n ymwneud â'r Ymrwymiadau Polisi a gaiff eu mabwysiadu gan y Cyngor o fewn unrhyw bortffolio; a

b chynghori a chefnogi gwaith y Cabinet a'r Cyngor, yn ei gyfanrwydd, gan gynghori'r Aelod Cabinet perthnasol ar newidiadau posibl i'r Polisi a chyflawni newidiadau gwasanaeth mawr a bod yn gyson â chyfeiriad **Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol**.

24 Mae'r cyfansoddiad hefyd yn cynnwys cylch gorchwyl manwl ar gyfer y swyddogaethau Craffu. Roedd aelodau a swyddogion yn cydnabod yr angen i gydgysylltu mewn modd effeithiol a sicrhau eglurder gweithredol o ran y trefniadau hyn o ganlyniad i'r posibilrwydd o ddyblygu eu gwaith o ran y pwnc dan sylw a'r dulliau o gyflawni'r gwaith. Er enghraifft, ymhlith pethau eraill, mae pwyllgor y rhaglen graffu yn gyfrifol am gyfrannu at bolisi a strategaeth gorfforaethol a phartneriaeth, cynnal ymchwiliadau manwl i feysydd gwasanaeth a pholisi, cynnwys y cyhoedd yn y gwaith o wella gwasanaethau a datblygu polisïau a bod yn 'gyfaill beirniadol' wrth graffu ar y broses cyn gwneud penderfyniad.

25 Mae gan Bwyllgorau Cynghori'r Cabinet rôl i'w chwarae o ran cynghori'r Aelod Cabinet perthnasol ar newidiadau posibl i Bolisi. Wrth gyflawni eu rôl, mae ffyrdd o weithio Pwyllgorau Cynghori'r Cabinet a ddisgrifir yn y cyfansoddiad yn debyg i'r hyn a wneir gan swyddogaethau craffu a gall gynnwys cynnal ymchwiliadau, ymweld â safleoedd, cynnal arolygon cyhoeddus, cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, comisiynu ymchwil, clywed gan dystion a phenodi cynghorwyr ac aseswyr.

## Mae gan y Cyngor strategaeth glir ar gyfer meithrin sgiliau cynghorwyr

26 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth dysgu a datblygu i gynghorwyr sy'n amlinellu camau dysgu a datblygu manwl, gan gynnwys disgrifiad o'r ffordd y caiff anghenion dysgu eu nodi a'r ffordd y caiff gweithgareddau dysgu eu gwerthuso. Yn ôl y disgwyl, mae'n ofynnol i gynghorwyr sy'n eistedd ar rai pwyllgorau, fel y Panel Trwyddedu neu'r Pwyllgor Penodiadau, gael hyfforddiant penodol cyn cymryd rhan mewn achosion. Mae rhaglen flynyddol o weithgareddau hyfforddi a datblygu i gynghorwyr ar waith sy'n dwyn ynghyd safbwyntiau am ansawdd yr hyfforddi a datblygu.

27 Ar y cyfan, roedd aelodau yn gadarnhaol am y cymorth a gafwyd. Mae'r Pwyllgor Safonau hefyd wedi bod yn rhagweithiol wrth gwrdd ag arweinwyr grŵp ac mae'n adrodd yn flynyddol i'r cyngor ar y gwaith a wnaed ganddo. Mae hefyd yn bwriadu adrodd yn fuan ar ganlyniadau ei gyfarfodydd diweddar ag arweinwyr grŵp.

28 Cymysg oedd barn aelodau ar y graddau yr oedd y Cyngor wedi eu cynorthwyo a'u hyfforddi i gyflawni eu rolau ar gyrff allanol. Roedd rhai aelodau o'r farn eu bod wedi cael cymorth gan y Cyngor tra bod eraill o'r farn nad oeddent wedi cael digon o gymorth/hyfforddiant ar gyfer eu rôl.

29 Rhoddir hyfforddiant Amddiffyn Plant i holl staff, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr ysgolion ar ffurf rhaglen dreigl. Hefyd, rhoddwyd Hyfforddiant Diogelu Corfforaethol i staff Gwasanaethau Cymdeithasol a sefydliadau partner, ynghyd â staff ysgolion a rhai aelodau etholedig. Fodd bynnag, bu lefelau presenoldeb rhai aelodau etholedig sy'n llywodraethwyr ysgol yn gymharol isel.

30 Gwnaethom gynnwys arolwg fel rhan o'n hastudiaeth o drefniadau diogelu ym mhob Cyngor yn 2014. Ar yr adeg honno, roedd y Cyngor islaw cyfartaledd yr arolwg ar gyfer nifer y bobl a oedd wedi cael hyfforddiant ym maes diogelu yn ystod y chwe mis blaenorol - 23 y cant yn y Cyngor o gymharu â 32 y cant ar gyfartaledd ar gyfer yr arolwg. Hefyd, roedd gan y Cyngor fwy o bobl a wnaeth, ar gyfartaledd, ymateb gan ddynodi nad oeddent byth wedi cael hyfforddiant ym maes diogelu, sef 15 y cant o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan sef 10 y cant. Mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud hyfforddiant diogelu yn orfodol i bawb. O ganlyniad, dechreuodd amserlen newydd ar gyfer sesiynau hyfforddiant diogelu yn ystod haf 2014 ar gyfer aelodau etholedig, rheolwyr gweithredol, rheolwyr trydedd haen, rheolwyr pedwaredd haen a chyflogeion rheng flaen.

## Mae trefniadau chwythu'r chwiban yn ddigonol ac mae polisi'r Cyngor wedi cael ei ddiweddaru'n ddiweddar

31 Nid oes gan y Cyngor unrhyw achosion o chwythu'r chwiban y rhoddwyd gwybod amdanynt ar hyn o bryd ond mae ganddo drefniadau mewnol digonol ar waith i weinyddu a chofnodi achosion pan fyddant yn codi. Ym mis Ebrill 2015, cafodd y Polisi Chwythu'r Chwiban ei ddiweddaru er mwyn cynnwys mwy o wybodaeth am rôl a manylion cyswllt rheoleiddwyr allanol.

32 Mae'n gadarnhaol bod y Cyngor wedi pennu cyfrifoldeb mewnol clir am chwythu'r chwiban o fewn y swyddogaeth adnoddau dynol ac, er yn gyfyngedig, gwnaed rhywfaint o waith cyhoeddusrwydd a briffio yn fewnol ar bwysigrwydd hyn a pholisïau adnoddau dynol eraill.

## Mae'r trefniadau llywodraethu ym maes diogelu yn ddigonol ac mae'r Cyngor yn gwneud gwelliannau pellach i'r camau y mae'n eu cymryd i sicrhau bod polisïau yn cael eu rhoi ar waith

33 Mae Polisi Diogelu Corfforaethol ar waith ac mae Grŵp Gweithredol Diogelu Corfforaethol yn monitro'r ffordd y'i rhoddir ar waith, sy'n adrodd bob chwarter i'r Bwrdd Gweithredol Corfforaethol a Bwrdd Gweithredol Amddiffyn y Cyhoedd. Ceir rôl Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol sefydledig ar gyfer Gwasanaethau Plant o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg. Mae pwyslais y Cyngor ar wella safonau arferion gofal plant, ynghyd â'r ffaith ei fod wedi mabwysiadu Siarter y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, wedi sicrhau bod gan ddiogelu broffil uchel iawn o fewn y Cyngor.

34 Nodir bod diogelu yn risg gorfforaethol allweddol. Nododd yr adolygiad blynyddol o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ym mis Rhagfyr 2013 gyfres o gamau er mwyn rheoli'r risg a gydgysylltir gan y Grŵp Gweithredol Diogelu Corfforaethol. Hefyd, mae gan bob maes gwasanaeth gofrestr risg a adolygir bob mis.

35 Cyflawnir gwaith monitro ac adrodd ar ddiogelu drwy adroddiad perfformiad misol Gwasanaethau Plant yn bennaf. Roedd y Cyngor yn cydnabod nad oedd trefniadau adrodd ar berfformiad yn gynhwysfawr am eu bod yn canolbwyntio gormod ar wasanaethau cymdeithasol ac addysg ac mae'n cymryd camau i sicrhau bod perfformiad gwasanaethau eraill y Cyngor yn cael ei werthuso a bod y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystyried y gwaith o asesu'r broses o roi'r polisi ar waith wrth ddatblygu ei flaenoriaethau rhaglen waith.

36 Rydym wedi rhoi adroddiad ar wahân i'r Cyngor ar ei drefniadau diogelu sy'n cynnwys cynigion ar gyfer gwella. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar gynnydd yn ystod 2015-16.

## Cynnig ar gyfer Gwella

| Cynnig ar gyfer Gwella | |
|---|---|
| **C2** | Sicrhau bod cofnodion penderfyniadau dirprwyedig a wneir gan swyddogion yn cael eu cadw. |

## Gall y Cyngor ddangos gwelliant mewn amrywiaeth o wasanaethau allweddol ac mae'n cydnabod yr angen i wella ei drefniadau monitro a rheoli perfformiad yn gyflymach

### Drwy fabwysiadu'r system 'cerdyn sgorio' o adrodd ar berfformiad, bydd gan y Cyngor ddull mwy effeithiol o werthuso a rheoli perfformiad ond mae cyflymdra ac ansawdd y broses weithredu ar lefel gwasanaeth yn amrywio

37 Y llynedd, gwnaethom nodi bod y Cyngor, wrth gydnabod gwendidau yn ei drefniadau adrodd ar berfformiad, yn "adolygu ac yn newid ei drefniadau corfforaethol a rheoli perfformiad". Dechreuodd proses o friffio rheolwyr am ddull gweithredu diwygiedig a allai ddarparu gwybodaeth gliriach am y canlyniadau a gyflawnwyd a'r adnoddau a ddefnyddiwyd gyda gweithdai Gweithgareddau Seiliedig ar Ganlyniadau i reolwyr ym mis Tachwedd 2012. Mireiniwyd hyn ymhellach yn ystod mis Tachwedd 2013 gan uwch reolwyr yn fwriad i lunio cardiau sgorio cytbwys.

38 Mae'r Cyngor yn ein hysbysu ei fod yn bwriadu cyflwyno adroddiadau chwarterol corfforaethol gwell ar gyfer 2015-16. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod Aelodau wedi bod yn cael adroddiadau sy'n cynnwys llawer iawn o ddata heb ddigon o wybodaeth i farnu ansawdd nac effeithiolrwydd gwasanaeth. Mae amseru adroddiadau i aelodau (tua 10 wythnos ar ôl y cyfnod a gwmpesir gan y data fel rheol) a chyfyngiadau gwybodaeth (absenoldeb safonau clir a bwriadedig a'r adnoddau a ddefnyddiwyd) yn golygu ei bod yn rhy hwyr i lywio penderfyniadau sylweddol gan aelodau.

39 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi neilltuo cryn dipyn o amser yn meithrin gwybodaeth rheolwyr gwasanaeth am gardiau sgorio cytbwys, yn ogystal â datblygu strwythur cysylltiedig a chanllawiau ar gyfer cynlluniau busnes gwasanaethau. Ers i'r gweithdai Gweithgareddau Seiliedig ar Ganlyniadau gael eu cwblhau ar ddechrau 2013, disgwyliwyd i gynlluniau busnes gwasanaethau gael eu strwythuro ar sail egwyddorion Gweithgareddau Seiliedig ar Ganlyniadau a nodi canlyniadau bwriadedig gweithgareddau a ddisgrifiwyd yn y cynlluniau. Dengys y cynlluniau a adolygwyd gennym y bu llwyddiant cymysg. Roedd y disgwyliadau i'w gweld yn glir mewn rhai ond mewn eraill roeddent yn dal i ganolbwyntio ar weithgareddau yn hytrach na chanlyniadau. Mae'r Cyngor yn cynnig adolygu holl gynlluniau busnes gwasanaethau ar gyfer 2015-16 ym mis Mehefin 2015 a defnyddio proses "adolygu cymheiriaid" fewnol i sicrhau cysondeb o ran ansawdd cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

40 Gallai datblygiad bwriadedig y trefniadau adrodd ar berfformiad ddarparu gwybodaeth well a mwy hygyrch a fydd yn helpu i wneud penderfyniadau drwy roi darlun cliriach o'r canlyniadau a gyflawnwyd yn erbyn disgwyliadau â'r adnoddau a ddefnyddiwyd. Mae angen cymryd camau mwy dybryd i sefydlu dull cyson a chadarn o gefnogi penderfyniadau'r Cyngor yn y dyfodol, drwy weithgareddau allweddol.

### Cynigion ar gyfer Gwella

| Cynigion ar gyfer Gwella | |
|---|---|
| **C3** | Gwella trefniadau adrodd ar berfformiad yn gyflymach er mwyn darparu amrywiaeth cytbwys o wybodaeth hygyrch sy'n cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau. |

## Er bod gwariant termau real wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf, mae canlyniadau addysg wedi bod yn gwella ar y cyfan ac mae'r Cyngor yn rheoli lleoedd gwag mewn ysgolion yn effeithiol


41 Gan adlewyrchu ei flaenoriaethau, mae'r Cyngor wedi ceisio diogelu cyllidebau addysg i raddau fel rhan o'i strategaeth arbed gyffredinol. Fodd bynnag, gan ystyried chwyddiant, lleihaodd gwariant alldro termau real ar addysg £1,767,000[1] yn 2013-14 o gymharu â gwariant alldro yn 2011-12.

42 Mae'r Cyngor wedi lleihau nifer y lleoedd gwag yn ei ysgolion. Yn 2010 roedd 103 o ysgolion cynradd ac uwchradd yn Abertawe, gyda 17.8 y cant o leoedd gwag. Erbyn 2014, roedd nifer yr ysgolion wedi lleihau i 94, ac roedd nifer y lleoedd gwag net wedi lleihau i 12.5 y cant.

43 Mae disgyblion yn ysgolion uwchradd Abertawe yn cael canlyniadau TGAU sydd gryn dipyn yn uwch na'r hyn y gellid ei ddisgwyl o'u cymharu ag ysgolion eraill ledled Cymru sydd â lefelau tebyg o amddifadedd, a hynny'n gyson. Yn 2014 (sef y flwyddyn fwyaf diweddar y mae data cymharol ar gael ar ei chyfer), cafodd 59.1 y cant o ddisgyblion 16 oed bum gradd TGAU dda neu fwy a oedd yn cynnwys Cymraeg (iaith gyntaf) neu Saesneg a mathemateg, a oedd yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 55.4 y cant. Roedd wyth o'r 14 o ysgolion uwchradd yn y chwartel uchaf ac roedd un yn y chwartel isaf ar gyfer y dangosydd hwn, o gymharu ag ysgolion mewn rhannau eraill o Gymru â lefelau tebyg o amddifadedd. Hefyd, mae nifer gymharol lai o ddisgyblion yn gadael ysgolion Abertawe heb gymhwyster na chyfartaledd Cymru.

44 Mae canlyniadau Cyfnod allweddol 2 wedi bod yn gwella'n raddol ers 2010 a rhagorwyd ar gyfartaledd Cymru yn 2014. Mae'r perfformiad hwn yn well na'r disgwyl o gymharu ag ysgolion eraill ledled Cymru â lefelau tebyg o amddifadedd.

Arddangosyn 3 – Mae canlyniadau Cyfnod allweddol 2 wedi bod yn gwella





Ffynhonnell: Uned Ddata Llywodraeth Cymru InfoBaseCymru

1 Fel y'i mesurwyd gan ddatchwyddwyr GDP y Trysorlys ym mis Ebrill 2015


45 Mae'r Cyngor yn anelu at wella cyrhaeddiad disgyblion. Wrth ystyried canlyniadau mewn ysgolion, defnyddir cymhwysedd disgyblion i gael prydau ysgol am ddim fel modd i nodi'r disgyblion hynny sy'n fwy amddifad nag eraill yn gymharol. Yn Abertawe, mae'r gwahaniaeth rhwng lefelau perfformiad y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt wedi bod yn tyfu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n fwy na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ar hyn o bryd.

Arddangosyn 4 – Mae'r bwlch rhwng disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a gafodd o leiaf bum gradd TGAU dda a'r rhai nad ydynt yn dechrau tyfu





Ffynhonnell: Uned Ddata Llywodraeth Cymru InfoBaseCymru

Arddangosyn 5 – Nid yw lefel presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi gwella'n gyson ac erys yn is na chyfartaledd Cymru




Ffynhonnell: Uned Ddata Llywodraeth Cymru InfoBaseCymru

Arddangosyn 6 – Mae lefel presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn gwella ond erys yn is na chyfartaledd Cymru




Ffynhonnell: Uned Ddata Llywodraeth Cymru InfoBaseCymru

## Nododd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod y Cyngor yn gwella perfformiad tra'n cymryd camau i wella diwylliant a hunanwerthuso

46 Mae AGGCC yn rheoleiddio gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae AGGCC yn rhoi sicrwydd annibynnol am ansawdd ac argaeledd gofal cymdeithasol yng Nghymru. Cafodd Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013-14 AGGCC ar gyfer y Cyngor ei gyhoeddi ym mis Hydref 2014. Gellir cael copi ar wefan AGGCC yn www.aggcc.org.uk.

47 Roedd yr AGGCC o'r farn bod y Cyngor yn gwella perfformiad tra'n cymryd camau i wella diwylliant a hunanwerthuso. Nododd fod gan wasanaethau cymdeithasol gyfeiriad clir a gefnogwyd gan gynlluniau corfforaethol a fframwaith strategol.

48 Hefyd, nododd yr AGGCC fod y Cyngor yn gwneud cynnydd sylweddol o ran ei gynlluniau trawsnewid o fewn gwasanaethau plant ac oedolion a'i fod wedi ennill cefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref i'r newidiadau a wnaed.

49 Mae'n werth nodi, tra cyfeiriodd rhai DSCau at wendidau cymharol ym mherfformiad Gwasanaethau Plant, tynnodd yr AGGCC sylw at arfer cadarnhaol yn y maes hwn. Y rheswm dros hyn oedd bod y Cyngor wedi rhoi mwy o bwyslais ar gymryd camau ymyrryd cynnar a chamau ataliol er mwyn sicrhau bod plant a theuluoedd yn gallu cael gafael ar gymorth a chefnogaeth amserol a lleihau'r angen am wasanaethau statudol mwy cymhleth.

50 O ran cyflawni o fewn gwasanaethau oedolion, roedd yr AGGCC o'r farn bod y gwaith o drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol oedolion wedi esgor ar ganlyniadau cadarnhaol, hynny yw roedd cydbwysedd gofal wedi symud o'r model gofal preswyl arhosiad hwy i un yn seiliedig ar y gymuned ac yn canolbwyntio ar ail-alluogi. Roedd y Cyngor wedi buddsoddi ei adnoddau mewn model gofal cymdeithasol a oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn hyrwyddo camau ataliol a chamau ymyrryd cynnar er mwyn cefnogi ac optimeiddio annibyniaeth pobl. Roedd gwasanaethau yn gweithio i nodi a chefnogi cryfderau yn hytrach na chanolbwyntio'n llwyr ar angen, gan adeiladu gwydnwch unigolion a'r gymuned leol. Roedd yr AGGCC o'r farn bod hyn yn beth cadarnhaol a braf a'i fod yn grymuso pobl i aros yn annibynnol, mewn rheolaeth a chadw eu llais.

51 Gan adlewyrchu ei flaenoriaeth i ddiogelu pobl agored i niwed, mae'r Cyngor wedi diogelu gwasanaethau cymdeithasol wrth geisio gwneud arbedion ariannol ac er y disgwyliwyd arbedion, mewn termau real, cynyddodd gwariant refeniw £5.8 miliwn[2] rhwng 2011-12 a 2013-14.

2 Fel y'i mesurwyd gan ddatchwyddwyr GDP y Trysorlys ym mis Ebrill 2015

## Er gwaethaf gostyngiadau cyllidebol termau real, mae'r Cyngor wedi bod yn cyflawni gwelliannau yn erbyn dangosyddion amgylcheddol allweddol

52 Mae 'gwasanaethau amgylcheddol lleol' yn cynnwys iechyd yr amgylchedd; casglu a gwaredu gwastraff; glanhau strydoedd, a mynwentydd a gwasanaethau amlosgi a mortiwariau. Yn gyffredinol, ni ddiogelwyd gwasanaethau amgylcheddol lleol wrth bennu arbedion ariannol yn y gorffennol a disgwylir, ynghyd â meysydd gwasanaeth eraill nas blaenoriaethwyd, y bydd angen arbed tua 50 y cant o'r gyllideb y gellir ei rheoli yn y dyfodol. Mewn termau real, lleihaodd gwariant alldro refeniw ar wasanaethau amgylcheddol lleol £1.46 miliwn[3] (5.4 y cant) rhwng 2011-12 a 2013-14.

## Mae'r Cyngor wedi parhau i wella yn erbyn dangosyddion amgylcheddol allweddol dros y blynyddoedd diwethaf

53 Sefydlwyd Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSCau) a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MACau) sy'n cwmpasu blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru neu am eu bod yn adlewyrchu materion pwysig. Gall y Cyngor ddangos gwelliant parhaus yn y meysydd canlynol:

a anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi ac ailgylchu mwy o wastraff (safle Cymru 18fed ac 16eg o blith y 22 o Gynghorau yn 2013-14);

b cyfran y sefydliadau bwyd a arolygir sy'n cydymffurfio â safonau hylendid bwyd yn fras (safle Cymru 14eg o blith y 22 o Gynghorau); a

c chanran y digwyddiadau tipio anghyfreithlon a gliriwyd o fewn pum diwrnod gwaith (safle Cymru 18fed o blith y 22 o Gynghorau).

## Er gwaethaf cyllidebau a niferoedd staff is, mae'r Cyngor yn cyrraedd safonau iechyd yr amgylchedd ar y lefelau uchaf ar y cyfan

54 Mae Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd a Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru, drwy'r Safonau Arfer Gorau, wedi ceisio diffinio ymhellach yr amrywiaeth o wasanaethau iechyd yr amgylchedd statudol a dewisol a ddarperir gan gynghorau yng Nghymru[4]. Caiff y safonau eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn ystyried newidiadau i ganllawiau statudol; effaith deddfwriaeth neu gyfraith achosion newydd; ac adlewyrchu ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau. Mae'r safonau'n diffinio gweithgarwch ym mhob un o'r meysydd gwasanaeth ac yn egluro'r nodweddion ar gyfer: gwasanaeth o safon ofynnol; gwasanaeth o safon dda; ac arfer gorau ym mhob un o'r meysydd. Yn fras, mae'r rhain yn adlewyrchu'r rhwymedigaethau statudol i bob gwasanaeth iechyd yr amgylchedd sy'n cwmpasu'r 11 o feysydd gweithgarwch.

3 Fel y'i mesurwyd gan ddatchwyddwyr GDP y Trysorlys ym mis Ebrill 2015
4 Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru a Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru gyfan, Safonau Arfer Gorau, Hydref 2013.

55 Mae gwariant y Cyngor ar yr elfennau penodol hyn o'r gwasanaeth iechyd yr amgylchedd wedi lleihau 2.8 y cant rhwng 2011-12 a 2013-14. Nid oedd hyn gymaint â chyfartaledd Cymru sef 4.18 y cant. Gyda'r gyllideb yn lleihau o £2,804,798 yn 2011-12 i £2,726,300 yn 2013-14. Hefyd, gwnaeth y Cyngor danwario yn erbyn ei gyllideb iechyd yr amgylchedd yn 2011-12 17.9 y cant, a 4.88 y cant yn 2012-13.

56 Mae nifer y staff a gyflogir gan y Cyngor i ddarparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi lleihau o 57 cyfwerth ag amser llawn yn 2011-12, i 55.3 yn 2013-14. Mae nifer y Rheolwyr/Arweinwyr Tîm wedi lleihau 25 y cant o fewn y Cyngor, tra bod nifer y Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd cymwysedig wedi cynyddu bron 10 y cant.

57 Yn y rhan fwyaf o feysydd iechyd yr amgylchedd, fod y Cyngor yn darparu gwasanaethau sy'n rhagori ar y safon ofynnol. Ar y cyfan, mae'r Cyngor yn darparu:

a 47.5 y cant o'i wasanaethau iechyd yr amgylchedd i'r safon uchaf o gymharu â 37 y cant yng Nghymru ar gyfartaledd;

b aseswyd bod 34.2 y cant yn cael eu darparu i safon dda o gymharu â 30 y cant yng Nghymru ar gyfartaledd;

c roedd 13.3 y cant yn unol â'r safon ofynnol o wasanaeth a bennwyd o gymharu â 22 y cant yng Nghymru ar gyfartaledd; ac

ch mae 5 y cant islaw'r safon ofynnol (neu ni chaiff y safon ei mesur gan y Cyngor) o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan sef 11 y cant.

## Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu ei ymrwymiad i ymateb yn gadarnhaol i anghenion siaradwyr Cymraeg drwy wella'r gwasanaeth Cymraeg a ddarperir ganddo

58 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir y bydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym drwy is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy rinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, a bydd yn gorfodi safonau drwy ymchwilio i gwynion statudol, gwneud penderfyniadau ar ymchwiliadau statudol, cynnal cofrestr o gamau gorfodi, a gosod cosbau sifil lle bo'n briodol.

59 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

60 Lluniwyd proffil rhannol o sgiliau iaith y gweithlu o ganlyniad i'r arolwg cydraddoldeb staff. Cytunwyd ar Fframwaith Sgiliau Iaith drafft ond penderfynodd yr Awdurdod beidio â'i fabwysiadu nes i'r Safonau Iaith gael eu cyflwyno. Ymwelodd y Pwyllgor Cydraddoldeb â gweithleoedd rheng flaen a nodwyd y dylid cymryd camau i wella'r gwasanaeth Cymraeg a ddarparwyd. Tanlinellodd hyn y ffaith bod angen darparu hyfforddiant iaith sylfaenol i staff rheng flaen, ond ni wnaed llawer o gynnydd yn ystod y flwyddyn. Mae'r Awdurdod yn bwriadu cyflwyno fersiwn dwyieithog newydd o'i wefan gyhoeddus erbyn hydref 2014. Atgyfnerthodd y Cyngor ei ymrwymiad i ymateb yn gadarnhaol i anghenion siaradwyr Cymraeg drwy lansio Safon Abertawe, sef rhestr o'r gwerthoedd a fabwysiadwyd gan y sefydliad i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael y gwasanaeth gorau posibl.

## Mae gan y Cyngor hanes cryf o reoli ei gyllideb ac mae wedi sefydlu trefniadau cynhwysfawr ar gyfer rheoli'r heriau ariannol y mae'n eu hwynebu yn y dyfodol

### Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol strategol cadarn ar waith ond prin y craffwyd arnynt ar y dechrau

61 Yn 2013-14 roedd gwariant refeniw gros y Cyngor yn £558,283,000. Mae'r Cyngor yn cyflwyno amrywiaeth o gamau ym mhob gwasanaeth i gyflawni targed o £26.2 miliwn yn 2014-15. Nododd ein harolwg o uwch swyddogion ac aelodau fod dros 95 y cant o ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod yn glir am sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor. Mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud arbedion pellach o £21 miliwn yn 2015-16.

62 Disgwylir i'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor barhau. Ym mis Chwefror 2015, amcangyfrifodd y cynllun ariannol tymor canolig cyfredol y bydd gostyngiadau ariannol yn y dyfodol, ynghyd â phwysau a galwadau cynyddol ar y gwasanaeth, yn gofyn am arbed £86 miliwn arall dros y tair blynedd ariannol hyd at ddiwedd 2018-19.

63 Mae'r Cynllun hwn yn rhoi cyd-destun i'r Cyngor o ran ei benderfyniadau yn y dyfodol wrth bennu ei gyllideb a'i dreth gyngor flynyddol. Rhydd Abertawe Gynaliadwy y strategaeth a'r fframwaith i'r Cyngor gyflawni'r arbedion angenrheidiol a gwella'r ffordd y mae'r Cyngor yn gallu gwerthuso ei brosesau cyflawni cyfredol ac ystyried opsiynau amgen yn y dyfodol.

64 Mae'r Cynllun hefyd yn tynnu sylw at yr angen i ganolbwyntio'n glir ar y gyllideb o £737 miliwn sy'n weddill er mwyn sicrhau mai ar gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor y caiff ei arian ei wario a bod disgwyliadau o ran gwasanaethau a blaenoriaethau perthynol yn cael eu nodi'n glir. Adlewyrchir yr angen hwn yn y Cynllun drwy gynnwys egwyddorion cyllidebol a blaenoriaethau cyllidebau gwasanaeth.

65 Rhydd **Cynllun Gwella Corfforaethol 2013-17** y Cyngor ei brif weledigaeth a'i nodau. Nid yw'r cysylltiad rhyngddo ac **Abertawe Gynaliadwy** yn gwbl eglur ond mae'r Cyngor yn bwriadu atgyfnerthu hyn drwy ddatblygu Cynllun Corfforaethol 2015-16. Mae'n cydnabod y dylid gwneud rhagor o welliannau i atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng strategaethau allweddol.

66 Arweinir y gwaith cynllunio ariannol gan Grŵp Llywio Adolygu'r Gyllideb a chyfarfodydd adrannol wedi'u ffurfioli. Mae'r strwythur hwn yn cefnogi rhaglen 'Abertawe Gynaliadwy'. Erbyn hyn, mae tîm Cyllid Strategol hefyd wedi cael ei sefydlu i ganolbwyntio ar gynllunio ariannol ac i weithio gyda chyfarwyddiaethau er mwyn datblygu rhaglenni gwaith i gyflawni'r arbedion sydd eu hangen. Dull mwy cydweithredol o gynllunio ariannol yw datblygu dull lle mae swyddogion cyllid yn gweithio gyda gwasanaethau yn hytrach na'i fod yn swyddogaeth cyllid canolog yn unig. Fodd bynnag, prin y craffwyd ar waith cynllunio ariannol hyd yn hyn ac mae'r Cyngor yn cydnabod bod hyn yn swyddogaeth i'w gwella ar gyfer 2015-16.

## Mae gan y Cyngor hanes o fantoli'r gyllideb ac mae'n mireinio ei drefniadau ar gyfer adolygu'r modd y cyflawnwyd arbedion arfaethedig

67 Ers 2011-12, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei dargedau o ran arbedion. Gwnaed hyn drwy drefniadau a nododd y swm cyffredinol a oedd yn ofynnol ac a reolodd y gwaith o gyflawni arbedion o fewn ei gyllideb gyffredinol. Ym mhob blwyddyn, cafodd cyllidebau gwasanaeth eu cefnogi os oedd angen, drwy ddefnyddio cronfa wrth gefn i reoli gorwariant ar wasanaethau. Cafodd y defnydd hwn o'r gronfa wrth gefn ei gynllunio a'i ragfynegi er mwyn mynd i'r afael ag anwadalrwydd gwariant mewn rhai meysydd gwasanaeth, fel Plant sy'n Derbyn Gofal. Ar gyfer 2014-15, dyrannodd y Cyngor fwy o gyllideb ar gyfer y gwasanaethau hynny a oedd wedi 'gorwario' yn y gorffennol er mwyn pwysleisio cyfrifoldeb gwasanaethau unigol am reoli eu gwariant. Cafwyd y cynnydd seiliedig ar wasanaeth hwn drwy ailddyrannu'r swm a gadwyd yn flaenorol yn y gronfa wrth gefn.

68 Gwnaed gwelliannau pellach er mwyn sicrhau bod arbedion yn cael eu cyflawni mewn perthynas â chynigion penodol drwy gyflwyno adnodd 'olrhain' arbedion ar gyfer 2014-15. Mae'r adnodd hwn yn canolbwyntio ar wneud penderfyniadau arbed penodol (yn hytrach na dim ond nodi p'un a gafodd swm o arian ei arbed ai peidio) ac mae'n anelu at gofnodi lefel yr arbedion a wnaed yn ystod y flwyddyn a helpu i ragfynegi'r lefel o arbedion a ddisgwylir am weddill y flwyddyn.

## Mae gan y Cyngor strategaeth arbed sy'n seiliedig ar dybiaethau realistig o'r hyn y gellir ei gyflawni yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor

69 Drwy Abertawe Gynaliadwy, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i newid dyluniad a darpariaeth gwasanaethau ac i ddull cwbl newydd o reoli'r galw ac ymyrryd yn gynnar. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i gyflawni arbedion yn y fath fodd ac na chaiff arbedion sylweddol o rai o'r llifau gwaith hyn eu gwneud am sawl blwyddyn. O ganlyniad, bydd y rhan fwyaf o'r arbedion yn y flwyddyn gyfredol 2014-15 a'r flwyddyn nesaf 2015-16 yn parhau i ddeillio o arbedion effeithlonrwydd.

70 Mae rhaglen gyflawni Abertawe Gynaliadwy yn cynnwys pedwar llif gwaith:

a Effeithlonrwydd; anelu at sicrhau bod gwasanaethau mor effeithlon â phosibl cyn i wasanaethau gael eu cwtogi. Amserlen weithredu dros y flwyddyn neu dair nesaf.

b Modelau cyflawni newydd; symud i fodelau cyflawni newydd a all gynnig gwell canlyniadau a/neu gostau rhatach. Amserlen weithredu dros y ddwy i bum mlynedd nesaf.

c Ataliaeth; buddsoddi mewn camau ymyrryd cynnar a rheoli'r galw er mwyn lleihau costau a chyflawni gwell canlyniadau. Amserlen weithredu dros y tair i ddeg mlynedd nesaf.

ch Rhoi terfyn ar wasanaethau; rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn ddiben craidd neu nad ydynt yn cyflawni canlyniadau gwerth chweil. Amserlen weithredu dros y flwyddyn neu dair nesaf.

71 Cefnogir y llifau gwaith gan 14 o elfennau cyflawni ac amcangyfrifir yr arbedion arfaethedig yn deillio o'r gweithgareddau hyn dros gyfnod o dair blynedd gan ystyried pa mor hawdd neu anodd yw hi i gyflwyno newid.

72 Mae'r Cyngor yn buddsoddi yn y gwaith o drawsnewid gwasanaethau ac mae wedi sefydlu cronfa o £1.7 miliwn er mwyn cefnogi'r gwaith o ail-ddylunio gwasanaethau a chostau newid. Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cytuno ar nifer o gynigion i gefnogi'r broses newid drwy ariannu secondiadau llifau gwaith, llenwi swyddi gwag pobl a symudwyd dros dro a darparu adnoddau ychwanegol yn y byrdymor.

## Mae cyflwyno adnoddau monitro ariannol diwygiedig wedi gwella'r broses o reoli risg drwy dynnu sylw at fygythiadau i gyflawni cynlluniau arbed

73 Mae gan y Cyngor gynigion clir ar waith i gyflawni'r rhan fwyaf o'i dargedau arbed ar gyfer 2014-15 ac mae'n cymryd camau priodol i'w cyflawni. Drwy weithredu'r 'adnodd olrhain' arbedion nodwyd yr elfennau hynny o'r cynllun arbedion nas cyflawnir yn 2014 15. Rhoddwyd cynlluniau gwneud iawn ar waith ac mae'r defnydd o'r adnodd monitro newydd hwn wedi tynnu sylw at y risg sy'n gysylltiedig â chyflawni cynlluniau arbed penodol yn gyffredinol a fydd yn helpu i reoli risg yn y dyfodol.

74 Yn ystod 2014-15, cynhaliodd y Cyngor adolygiad o opsiynau arbed eraill. Gofynnwyd i Benaethiaid Gwasanaeth nodi opsiynau ychwanegol a allai leihau cyllidebau 20 y cant, er mwyn cyflawni targed cyffredinol o £75 miliwn mewn arbedion dros y tair blynedd nesaf. Cwmpaswyd pob gwasanaeth, yn cynnwys gwasanaethau "gwarchodedig" o fewn Ysgolion ac Addysg (arbedion o 15 y cant) a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion (arbedion o 15 y cant). Bydd gostwng y lefel o arbedion sydd eu hangen o'r cyllidebau eraill hyn yn gofyn i Wasanaethau Corfforaethol a'r Gyfarwyddiaeth Lleoedd arbed tua 50 y cant o'u cyllidebau y gellir eu rheoli er mwyn cyflawni'r targed cyffredinol.

## Mabwysiadwyd strategaeth TGCh newydd sy’n darparu fframwaith ar gyfer y dyfodol ac mae asesiad o’r adnoddau sydd eu hangen i lywio camau gweithredu yn mynd rhagddo

75 Mae’r Cyngor yn cydnabod bod TGCh yn elfen allweddol o gefnogi’r gwaith o gyflawni ‘Abertawe Gynaliadwy’ ac, ar adeg ein hasesiad, roedd wrthi’n sefydlu trefniadau ‘mewnol’ newydd i gefnogi a datblygu swyddogaethau TGCh.

76 Cafodd strategaeth TGCh ar gyfer 2014-19 ei mabwysiadu ym mis Medi 2014 a chyda model gweithredu busnes ar gyfer 2016-18 rhydd fframwaith ar gyfer y dyfodol. Gallai’r strategaeth gefnogi gwelliannau ac mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu i gefnogi’r broses gyflawni.

77 Hyd yn hyn, mae arbedion ar lefel gwasanaeth wedi cynnwys gostyngiad o 20 y cant yn y gyllideb refeniw TG o £10.5 miliwn yn 2012-13 i £7.8 miliwn yn 2014-15. Cyflawnwyd arbedion drwy resymoli contractau TG, disodli hen seilwaith TG a chyflwyno diswyddiadau gwirfoddol. Mae nifer y staff a gyflogir gan y gwasanaeth wedi lleihau o 68 yn 2012-13 i 53 yn 2014-15. Bwriedir lleihau niferoedd staff ymhellach yn ystod 2015-16 er mwyn cyflawni targedau arbed.

# Rhydd y Strategaeth Adnoddau Dynol fframwaith rheoli pobl ond nid yw'n cael ei ddefnyddio'n gyson ar lefel gwasanaeth

## Mae'r Strategaeth Adnoddau Dynol a'r Gweithlu yn cydnabod yr angen i reoli'r gweithlu yn effeithiol ond nid yw'r gwaith o gynllunio'r gweithlu wedi'i integreiddio'n gyson eto o fewn cynlluniau busnes gwasanaethau

78 Cafodd **Strategaeth Adnoddau Dynol a'r Gweithlu** (y Strategaeth) y Cyngor ar gyfer 2013-17 ei diweddaru ym mis Hydref 2014. Bwriad y Strategaeth yw trawsnewid perfformiad pobl yn Abertawe a galluogi'r sefydliad i reoli newid yn effeithiol a chysoni ei Strategaethau a'i Gynlluniau â gweithgareddau rheoli a chynllunio'r gweithlu.

79 Un o nodau allweddol y Strategaeth yw sicrhau bod gan y Cyngor y bobl gywir, yn y man cywir ar yr adeg gywir. Y bwriad yw galluogi rheolwyr i sefydlu prosesau cynllunio'r gweithlu ac olyniaeth effeithiol a datblygu rheolwyr sy'n hyderus ac yn abl, sy'n galluogi ac yn cefnogi eu timau drwy arferion rheoli'r gweithlu effeithiol, diogel ac iach. Mae'r strategaeth hefyd yn anelu at gefnogi a chymell cyflogeion drwy sicrhau eu bod yn deall eu rôl yn y sefydliad ehangach a darparu gwell gwasanaethau.

80 Ers 2008, mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu trefniadau i gynorthwyo rheolwyr i wella'r gwaith o gynllunio'r gweithlu ac olyniaeth. Fodd bynnag, araf fu'r cynnydd ac nid yw gweithgareddau cynllunio'r gweithlu wedi'u hintegreiddio o fewn pob cynllun gwasanaeth eto. Hyd yn hyn, mae gweithgareddau wedi canolbwyntio ar ddarparu arweiniad, pecyn cymorth, templed a data er mwyn galluogi rheolwyr i ddadansoddi proffil oedran a rhyw y gweithlu o fewn maes gwasanaeth ac integreiddio â gwaith cynllunio busnes blynyddol. Mae Canllawiau Cynllunio Busnes Gwasanaethau ar gyfer 2015-16 yn disgwyl i bob gwasanaeth gynnwys y gwaith o gynllunio'r gweithlu fel un o bedair prif egwyddor er bod Cynlluniau cyfredol yn anghyson o ran dilyn canllawiau.

## Mabwysiadwyd proses arfarnu newydd yn seiliedig ar gymwyseddau priodol ond nid oes gan y Cyngor ddulliau effeithlon o bennu'n hawdd a gyflawnir gwaith arfarnu'n effeithiol

81 Cyflwynwyd system arfarnu seiliedig ar gymwyseddau newydd ym mis Ebrill 2013 ac mae'n cael ei gweithredu gan y Cyngor ar hyn o bryd. Mabwysiadwyd cymwyseddau allweddol priodol sy'n gysylltiedig â swyddi, cyflog a gwobrau ac sy'n hyrwyddo'r ymddygiad sy'n ofynnol gan staff a rheolwyr. Mae'r Cyngor hefyd yn integreiddio 'cymwyseddau newid' o fewn fframwaith arfarnu.

82 Datblygwyd polisi **Rheoli Perfformiad Cyflogeion** ym mis Hydref 2013 ac ar adeg yr asesiad hwn roedd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i reolwyr. Mae'r polisi hwn yn cynnwys nodweddion o arfer da a gallai helpu rheolwyr i nodi a rheoli tanberfformiad neu berfformiad gwael yn fwy effeithiol.

83 Nid oes gan y Cyngor system TGCh gorfforaethol sy'n ei alluogi i gymryd trosolwg o effeithiolrwydd gweithgareddau arfarnu. Mae systemau'n amrywio o un gwasanaeth i'r llall ac mae'r Cyngor yn dibynnu ar systemau llaw i ddwyn ynghyd wybodaeth reoli. Nid yw'r Cyngor yn monitro arfarniadau wedi'u cwblhau nac yn profi eu hansawdd ac ni all reoli ansawdd o gwbl na nodi'r rheolwyr hynny a all fod ag anghenion datblygu yn y maes hwn.

84 Ar y cyfan, araf fu'r broses o newid o weithgareddau trafodol llaw i electronig ar gyfer swyddogaethau adnoddau dynol, gyda slipiau cyflog a threuliau ar-lein yn cael eu gweithredu ond taflenni amser a chofnodion gwyliau blynyddol yn dal i ddibynnu ar systemau llaw.

## Ar y cyfan, mae lefelau absenoldeb oherwydd salwch wedi bod yn gostwng ers 2011-12

85 Mae'r Cyngor wedi datblygu **Cynllun Gweithredu Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol ar gyfer 2013-16**, sy'n cynnwys cyngor a chymorth a gynlluniwyd i reoli absenoldeb oherwydd salwch a gwella lles staff. Mae'r Cyngor wedi pennu targed i ostwng lefelau absenoldeb oherwydd salwch hirdymor 10 y cant o gymharu â 2013-14 a disgwylir i Benaethiaid Gwasanaeth gynnwys absenoldeb oherwydd salwch yn eu cynlluniau busnes ar gyfer 2014-16.

86 Ers 2011-12, mae nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd absenoldeb oherwydd salwch wedi lleihau o 11.55 diwrnod i 8.79 diwrnod fesul staff cyfwerth ag amser llawn.

## Mae trefniadau rheoli asedau yn gyson â'r gwaith o gyflawni strategaeth newid y Cyngor ond nid yw cynlluniau busnes gwasanaethau yn ymgorffori ymrwymiadau a gofynion asedau eiddo yn gyson

87 Mae gan y Cyngor Gynllun Rheoli Asedau ar gyfer 2013-17 (y Cynllun) sy'n dangos bod y Cyngor yn berchen ar dir ac adeiladau o bwys gwerth tua £600 miliwn. Mae'r Cynllun yn tanlinellu'r ffaith bod angen gwaredu eiddo, cynhyrchu derbynebau cyfalaf a darparu llety addas ond nid yw'n myfyrio ar gostau cynnal a chadw portffolio eiddo mor fawr a ph'un a yw'n gyson â blaenoriaethau newydd y Cyngor ac yn werth am arian.

88 Mae asedau yn un o'r elfennau cyflawni o fewn llif gwaith 'Effeithlonrwydd' Abertawe Gynaliadwy. Caiff gweithgareddau'r Gwasanaeth Adeiladu ac Eiddo Corfforaethol eu hintegreiddio o fewn Abertawe Gynaliadwy, er enghraifft ystyried effaith gweithio ystwyth ar anghenion eiddo'r Cyngor ac Adolygiadau Ardal yn cynnwys Trosglwyddiad Cymunedol asedau.

89 Disgwylir i wasanaethau nodi eu gofynion o ran asedau fel rhan o'u proses cynllunio busnes gwasanaeth. Byddai arfer da yn disgwyl cynnwys manylion tir ac adeiladau allweddol a ddefnyddir gan bob gwasanaeth ar hyn o bryd; gofynion tir ac adeiladau yn y dyfodol; a materion eraill fel costau cynnal a chadw a mynediad. Prin, os o gwbl, y cyfeiriwyd at asedau eiddo yn y cynlluniau busnes gwasanaethau a adolygwyd gennym.

90 Caiff perfformiad eiddo ei gofnodi mewn fformatau gwahanol ar adegau gwahanol o'r flwyddyn fel:

a adroddiadau ar gynnydd asedau Abertawe Gynaliadwy i'r Bwrdd Effeithlonrwydd;

b darparu cerdyn sgorio cytbwys lefel uchel ar berfformiad gwasanaeth i'r Panel Monitro Lleoedd, Perfformiad ac Ariannol;

c gwybodaeth lefel uchel am berfformiad o ran cyflawni targedau'r rhaglen gyfalaf a gwaredu tir ac eiddo i Grŵp Llywio Adolygu'r Gyllideb;

ch adroddiadau gwybodaeth i'r Gweithgorau Rheoli Llety ac Asedau; ac

d i Weithrediaeth y Cyngor pan fo angen gwneud penderfyniad ynghylch y Portffolio Eiddo.

91 Amcangyfrifir bod cyfanswm y costau ar gyfer ôl-groniad gwaith cynnal a chadw bellach yn £268 miliwn sydd wedi lleihau o fwy na £360 miliwn. Mae'r Cyngor wedi cyflawni gostyngiad o 35 y cant uwchlaw cynnydd mewn chwyddiant. Nid yw effaith gadarnhaol Strategaeth Eiddo'r Cyngor ar gyflwr eiddo wedi'i hadrodd i'r Cabinet yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac nis adlewyrchir mewn adroddiadau chwarterol safonol.

### Cynigion ar gyfer Gwella

| Cynigion ar gyfer Gwella | |
|---|---|
| **C4** | Sicrhau bod cynlluniau busnes gwasanaethau yn ymgorffori gofynion rheoli asedau a'r gweithlu yn gyson fel y disgwylir mewn canllawiau corfforaethol. |

# Atodiadau

## Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Tystysgrif cydymffurfio

## Archwilio Cynllun Gwella 2014-15 Dinas a Sir Abertawe

### Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

### Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

a wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;

b gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a

c gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, archwilio'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chadarnhau a wyf yn credu bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â gofynion statudol a nodir yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar b'un a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Steve Barry, Rheolwr

Helen Keatley, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Archwilio asesiad o berfformiad 2013-14 Dinas a Sir Abertawe

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor) o'i berfformiad yn 2013-14 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad bob blwyddyn sy'n disgrifio ei berfformiad o ran:

a cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau;

b cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;

c drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; a

ch chyrraedd unrhyw safonau perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn nodi a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn cynnwys adolygu cyhoeddiad y Cyngor er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Steve Barry, Rheolwr

Samantha Spruce, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 3 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Rob Stewart - Arweinydd

Dinas a Sir Abertawe
Y Ganolfan Ddinesig
Heol Ystumllwynarth
Abertawe
SA1 3SN

Annwyl Gynghorydd Stewart

**Llythyr Archwilio Blynyddol - Dinas a Sir Abertawe 2013-14**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2014, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 17 Medi 2014, a chyflwynir adroddiad manylach maes o law.

**Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau**

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Mae'r Cyngor yn parhau i wella ei drefniadau rheoli ariannol fel y gall fynd i'r afael â'r heriau ariannol sy'n ei wynebu.

Ar hyn o bryd, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal Asesiad Corfforaethol o'r Cyngor a chaiff ein canfyddiadau eu rhannu â rheolwyr maes o law.

**Nid wyf eto wedi cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod y broses o archwilio'r cyfrifon wedi'i chwblhau**

Pan gyhoeddais fy marn archwilio, ar 30 Medi 2014, nid oeddwn yn gallu cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod y broses o archwilio'r cyfrifon wedi'i chwblhau am nad oedd Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn ar ei ffurf derfynol. Ar 26 Tachwedd 2014, cyhoeddais farn ddiamod ar gysondeb y datganiadau cyfrifyddu ag Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn.

Caiff tystysgrif yn cadarnhau bod y broses o archwilio'r cyfrifon wedi'i chwblhau ei chyhoeddi ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu, yn unol â rheoliad 11 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru).

**Nid yw'r gwaith a wnaed gennyf hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2014-15 na systemau ariannol allweddol**

Cadarnhaodd fy adroddiad grant blynyddol ar gyfer 2012-13 fod 44 o hawliadau grant wedi'u hardystio gan PwC. O'r rheini, roedd 16 yn ddiamod heb ddiwygiad, cafodd 15 eu diwygio yn sgil ein harchwiliad, cafodd saith hawliad eu hardystio'n amodol a chafodd chwe hawliad eu diwygio'n amodol. Bydd adroddiad manwl ar fy ngwaith ardystio grantiau ar gyfer 2013-14 yn dilyn ym mis Mawrth 2015 unwaith y bydd rhaglen waith ardystio eleni wedi'i chwblhau.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2013-14 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodwyd yn ein hadroddiad i'r Cabinet ar 23 Medi 2014.

Yn gywir

**Kevin Williams (PwC)**

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
Copi i Mr Jack Straw – Prif Weithredwr

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru